

Cynnig i newid Gofod Awyr Awyrfod Eryri, ACP-2019-58, Ardal Perygl Llanbedr (APLI) – Canllawiau Defnyddiol ar gyfer yr Ymgynghoriad Cyhoeddus



1. Mae maes glanio wedi bodoli yn Llanbedr ers 1941, ac ers hynny mae wedi gweld ystod eang o weithredu mewn meysydd sifil a milwrol, yn bennaf gweithgareddau ar gyfer ymchwil, datblygu, profi a gwerthuso (RDT&E) gan ddefnyddio'r dronau targed Jindivik. Cyn i QinetiQ / MOD adael y safle yn 2004, roedd yno oddeutu 9500 symudiad awyrennau bob blwyddyn.




2. O safbwynt gofod awyr, roedd y gweithgareddau hyn yn cael eu rheoli gan Barth Traffig Maes Glanio (Aerodrome Traffic Zone - ATZ) – ac Ardal Perygl leol (D202) oedd yn cysylltu Llanbedr gydag Ardal Perygl ehangach sef Ardal Perygl Bae Ceredigion (D201). Daeth yr ATZ a'r D202 i ben pan adawodd QinetiQ / MOD y safle.

NB – Mecanwaith diogelwch yw'r Ardal Perygl ar gyfer cadw gweithgareddau RDT&E yn ffisegol ar wahân i awyrennau eraill..



3. Mae Canolfan Awyrfod Eryri (SAC) yn parhau i ganolbwyntio ar weithgareddau RDT&E ar gyfer awyrfodol y dyfodol – e.e. “dronau er daioni”, awyrennau trydan, cerbydau symudedd aer trefol a rhanbarthol, balwnau, llongau awyr a cherbydau profi gofod-agos. Ar y funud mae cyfanswm o tua 1000 o symudiadau awyrennau y flwyddyn. Mae'r maes glanio hefyd yn cefnogi Hedfanaeth Cyffredinol gan gynnwys Ysgol Hedfan leol.




4. Er mwyn hwyluso gweithgareddau cyfredol RDT&E, cafwyd ymgynghoriad ynghylch Ardal Perygl Dros Dro (TDA) yn 2014 ac mae wedi bod yn weithredol trwy gyfrwng Rhybudd i Awyrenwyr (NOTAM) os a phan fydd ei angen, unai yn ei gyfanrwydd neu yn rhannol, ar nifer o amgylchiadau ers 2015. Parhau gyda'r TDA yw'r opsiwn sylfaenol ar gyfer y newid a fwriedir i'r gofod awyr, ond mae hyn yn gyfyngedig iawn a dim gwarant iddo.

5. Mae Canolfan Awyrfod Eryri yn ased genedlaethol gydnabyddedig i Brydain ac ychydig iawn o leoliadau drwy'r wlad sydd yn gallu cynnig cystal ystod o bosibiliadau. Mae'r maes glanio wedi gweld cynnydd yn y galw am broffion hedfan ar nifer o systemau awyrfodol newydd a thechnolegau hedfan y dyfodol, ochr yn ochr â Strategaeth Diwydiannol Llywodraeth y DU.



“Bydd awyrennau amgylcheddol gyfeillgar yn gynyddol yn defnyddio technolegau trydan, ac rydym yn rhagweld mwy o awyrennau yn gweithredu'n awtonomaidd yn y dyfodol. Hefyd, bydd marchnadoedd newydd ar gyfer dronau a cherbydau Symydedd Aer Trefol yn cael eu datblygu. Rydym yn awyddus iawn i'r DU fod ar flaen y gad gyda'r datblygiadau cyffrous hyn, fel yr oedd pan fu i Sir Frank Whittle ddatblygu'r peiriant jet cyntaf erioed.



6. Mae'r ACP-2019-58 am greu Ardal Perygl sefydlog (sefydlog o safbwynt ei ddynodiad ond nid y defnydd ohono) a fydd yn galluogi Maes Glanio Llanbedr i gynyddu'r gefnogaeth i'r RDT&E ar gyfer awyrfodol y genhedlaeth nesaf yn y DU. Bydd yr AP yn “weithredol” (h.y. mewn defnydd) os a phan fydd angen yn unig, fel arall bydd yn agored i'r holl drafndiaeth awyr. Nid oes gan y cynnig ddim i'w wneud â gweithgaredd militaraid.



7. Mae'r ACP yn cynnig dewis o ddau ddyluniad ar gyfer yr Ardal Perygl sefydlog, y ddau yn cynnwys parth o ofod awyr neilltuedig o amgylch Llanbedr er mwyn cefnogi gweithgareddau lleol RDT&E ac hefyd goridor i'r de orllewin yn cysylltu i'r D201 presennol. Mae'r ddau wedi eu rhannu'n is-barthau fel y gallwn leihau'r ardal neilltuo trwy actifeiddio cyfeintiau gofod awyr ar sail angen yn hytrach na thrwy gyfnodau amser penodol.

8. Mae'r ffurfiau wedi eu dylunio i fod yn hawdd eu deall a'u gweithredu ac mae'r maint wedi ei ddylunio i gynnwys ystod o wahanol systemau awyrfod newydd. Er y gall lleoliadau daearyddol penodol fod o fewn y DA, gellir sefydlu trefn i sicrhau bod unrhyw weithgareddau hedfan wedi eu cyfyngu i ardaloedd ansensitif ac wedi eu rheoli trwy gyfrwng Llythyrau Cytundeb.



9. Mae SAC wedi adeiladu model ar gyfer y defnydd a ragwelir o'r DA. Rydym yn rhagweld oddeutu 100 diwrnod o weithgaredd DA y flwyddyn a 200 hediad y flwyddyn i gydfynd â hyn. Bydd oddeutu 90% o'r hediadau dros y maes glanio neu allan uwchben y môr, a bydd maint y cerbyd (y mwyafrif yn llai na 150kg) a'r gyriant (50%+ trydanol) hefyd yn lliniaru unrhyw ffactorau amgylcheddol.

10. Bydd profil sŵn ar gyfer oddeutu 66% o'r systemau awyrfod newydd fydd yn gweithio yn Llanbedr yn is na'r gwaelodlin amgylcheddol a brofir gan breswylwyr lleol ac i bob pwrpas ni fydd yn bosibl ei glywed y tu hwnt i ffiniau'r maes glanio. O safbwynt y 33% sydd weddill, mae'n anhebygol y bydd dim sŵn gwahanol i'r hyn a geir wrth i awyren gyffredin neu helicopter ddefnyddio'r maes glanio.



11. Mae Canolfan Awyrfod Eryri hefyd wedi ei dynodi fel ymgeisydd Maes Lansio Rocedi Llorweddol y DU. Ystyr "Lansio Llorweddol" yw bod mamgerbyd (awyren neu falŵn) yn codi o Lanbedr ac yn cario cerbyd lansio allan dros fae Ceredigion via y DA cyn i unrhyw rocedi gael eu tanio i gyrraedd uchder agos i'r gofod. Bydd hyn hefyd yn defnyddio adnoddau Rheoli Ystod yn QinetiQ / MOD Aberporth.



12. Ein bwriad ni yw addasu maes rocedi Eryri trwy ddatblygu'r safle fel campws hyblyg ac amldefnydd fydd yn cefnogi RDT&E, yn ymwneud ag awyrfod ac yn cynyddu i'r eithaf y potensial ar gyfer defnydd awyrfodol amrywiol. Rydym wedi datblygu Uwchgynllun yn cynnwys dau barc technoleg wedi eu lleoli o fewn ffiniau'r maes glanio. Bydd y DA a gynigir yn gweithredu fel catalyst busnes i gefnogi'r Uwchgynllun.



13. Mae Asesiad Ardrowiad Economaidd (EIA) wedi cefnogi ein cynnig i fynd i'r afael â marchnadoedd newydd technoleg hedfan a'r gofod a'u cysylltu gyda thwristiaeth lleol. Roedd yr EIA yn amcangyfrif y gallai datblygiad llwyddiannus yr Uwchgynllun gyfrannu 515 o swyddi a £19.5m y flwyddyn Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) yn lleol a 765 o swyddi a £34m y flwyddyn GVA i Gymru.



14. Hyd yma mae'r asesiadau wedi amlygu achos economaidd cryf dros weithredu Ardal Perygl sefydlog ar sail y ffaith y bydd (a) yn gwella awyrofod y DU a gallu gofod RDT&E yn sylweddol, a (b) yn cynhyrchu swyddi a budd economaidd i gymunedau lleol. Bydd Maes Rocedi Eryri hefyd yn cael ei gydnabod fel datblygiad blaenllaw yng Nghymru.



Rydym wedi cyhyrchu Dogfen Ymgynghori sydd yn egluro'r newidiadau y mae SAC yn bwriadu eu gwneud ac sydd yn cynnwys mapiau manylach a dadansoddiad amgylcheddol, a'r modd y gallant wneud gwahaniaeth i gymunedau ar y ddaear. Gellir gweld y ddogfen hon ar y portal CAA newid gofod awyr trwy glicio ar y linc canlynol:

https://gofod_awyrrchange.caa.co.uk/PublicProposalArea?pID=193



15. Byddwn hefyd yn cynnal sesiynnau galw i mewn ar gyfer y cyhoedd - gall unrhyw un fynd iddynt a chanfod mwy am y cynigion. Cynhelir y rhain ym Mhrif Hangar SAC (gyda mesurau Cofid-19 addas mewn lle):

- Dydd Iau, 10fed Rhagfyr 2020, 10am hyd 4pm
- Dydd Gwener, 11eg Rhagfyr 2020, 10am hyd 4pm (cyfle i sgwrsio yn Gymraeg)
- Dydd Sadwrn, 12fed Rhagfyr 2020, 10am hyd 2pm



16. Rydym yn gofyn i chi ystyried unrhyw effeithiau y gallai'r cynnig hwn eu cael arnoch chi fel unigolion, eich cymuned yn gyffredinol neu weithgareddau eich sefydliad. Dyma'ch cyfle i adolygu'r gweithdrefnau a gynigir a dylanwadu ar y dyluniadau gofod awyr terfynnol y bydd SAC yn eu cyflwyno i'r CAA. Byddem yn croesawu unrhyw atborth ac awgrymiadau y gallwch eu cynnig.



17. Gallwch ymateb ar-lein trwy bortal ymgynghori ar-lein y CAA (https://gofod_awyrrchange.caa.co.uk/PublicProposalArea?pID=193) neu gellir anfon ymatebion drwy'r post i:

Newid Gofod Awyr
Canolfan Awyrofod Eryri
Llanbedr, LA45 2PX

Bydd yr ymgynghoriad yn cychwyn ddydd Llun 7fed Rhagfyr 2020 ac yn parhau am 7 wythnos. Rhaid derbyn pob sylwadau erbyn 12 o'r gloch (hanner dydd) ar ddydd Gwener 22ain Ionawr 2021.